

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Addysg - Cynhwysiant- Gwasanaeth Lles Addysgu

Polisi Erlyn am
Beidio â Mynychu Ysgol

Mehefin 2017

DRAFT

Cynnwys:

- Cyflwyniad - tudalen 3
- Dehongliad – tudalen 3
- Fframwaith Deddfwriaethol – tudalen 4
- Diffinio Rhiant - tudalen 4
- Llawlyfr Presenoldeb – tudalen 5
- Hysbysiadau Cosb Sefydlog - tudalen 5
- Hysbysiadau Cosb Sefydlog parhad – tudalen 6
- Gwasanaeth Lles Addysg Merthyr Tudful – Troseddau - tudalen 7
- Y Broses Erlyn – Hysbysiadau Rhybudd – tudalen 7
- Y Broses Erlyn – Dogfennaeth – tudalen 8
- Dewisiadau Eraill yn Lle Erlyn – Gorchymyn Goruchwyllo Addysg – tudalen 8
- Gorchmynion Mynychu Ysgol – tudalen 8
- Contractau Rhianta a Gorchmynion Rhianta – tudalen 9
- Fframwaith Deddfwriaeth – tudalen 9
- Deddf Addysg 1996 (Adran 7, Adran 8, Adran 444(1), Adran 444(1a), Adran 444(ZA), Adran 437-443) – tudalen 9
- Deddf Plant 1989 (Adran 36) – tudalen 10
- Deddf Plant 2004 (Adran 16) – tudalen 10
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 – tudalen 11
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 – tudalen 11
- Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 – tudalen 11
- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 – tudalen 11

1. **Cyflwyniad**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful rwymedigaeth gyfreithiol i wneud darpariaeth addysg i bob plentyn sy'n byw yn y fwrdeistref. O dan adran 14 o Ddeddf Addysg 1996 (EA 1996) mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau bod digon o ysgolion cynradd ac uwchradd yn eu hardal i roi cyfle i bob disgybl i gael addysg briodol.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg (EWS) yn gweithredu fel corff gorfodi yn yr awdurdod lleol i sicrhau bod y cyfrifoldebau hyn yn cael eu cyflawni. Mae'r adran yn gweithio gydag ysgolion a rhieni ac asiantaethau eraill lle y bo'n briodol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

Cyfrifoldeb rhieni/gofalwyr yw sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac mae gweithredu trafodion cyfreithiol i fynd i'r afael â materion o beidio â mynychu ysgol yn seiliedig ar unigolion.

Y safon presenoldeb disgyblion a ddisgwylir gan Estyn yw 95%. Pan fydd plentyn yn methu â mynychu'r ysgol, nodir yr absenoldeb fel naill ai absenoldeb awdurdodedig neu absenoldeb anawdurdodedig. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi mai dim ond ysgolion all awdurdodi absenoldeb, ac mae'n rhaid i ysgolion ystyried p'un a yw'r rheswm dros yr absenoldeb yn rhesymol cyn gwneud hynny. Dylai unrhyw absenoldeb sydd heb ei awdurdodi gan yr ysgol gael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig. Mae'n hanfodol y dylai pob ysgol neu glwstwr o ysgolion fabwysiadu eu Polisi Presenoldeb eu hunain a ddylai gynnwys y rhesymeg dros Hysbysiadau Cosb Sefydlog, erlyniadau a dulliau ymyrryd eraill. Dylai'r polisi hwn hefyd gynnwys sefyllfaoedd lle bydd absenoldeb yn cael a ddim yn cael eu hawdurdodi.

Dylai'r camau cyfreithiol fod yn ymyrraeth raddedig a gynllunnir a dylent fod yn briodol i amgylchiadau unigol. Bydd unrhyw gamau yn ceisio sicrhau hawl pob plentyn i gael addysg. Mae'r ddogfen hon yn hysbysu ac yn arwain staff EWS a staff eraill yr awdurdod lleol o'r broses o fesurau cyfreithiol i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.

2. **Dehongliad**

Yn y polisi hwn:-

- SEWO – Uwch Swyddog Lles Addysg
- EWS – Gwasanaeth Lles Addysg
- EIO – Swyddog Cynhwysiant Addysg
- FPN – Hysbysiad Cosb Sefydlog
- SAO – Gorchmynion Presenoldeb Ysgol
- ESO – Gorchmynyn Goruchwyliaeth Addysg
- SLA – Cytundeb Lefel Gwasanaeth
- Rhiant – fel y diffinnir ym mharagraff 5 ac mae cyfeiriadau yn unigol a lluosog.
- Oed ysgol gorfodol – diffinnir fel y tymor ar ôl i'r disgybl gyrraedd 5 oed. Mae'n parhau i fod yn oed ysgol gorfodol tan ddydd Gwener olaf Mehefin ym mlwyddyn 11.

3. **Fframwaith Ddeddfwriaethol**

Y Gwasanaeth Lles Addysg (EWS) yw'r corff cyfrifol o fewn yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg addas ac yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Caiff y cyfrifoldeb o sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ei wneud drwy'r Tîm Cynhwysiant, yn benodol gan y swyddogion EWS yn gweithio gyda'r ysgolion a rhieni/gofalwyr a drwy erlyn y rhai sy'n methu â sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn penderfynu p'un a rhoi cyfarwydd i wasanaethau cyfreithiol Cyngor Merthyr Tudful i ystyried erlyn am drosedd o dan Ddeddf Addysg 1996.

O dan adran 16 o Ddeddf Plant 2004, mae gan yr heddlu bŵer ddychwelyd rhai sy'n triwanta i'r ysgol neu le a ddynodir gan yr awdurdod lleol.

4. **Diffinio Rhiant**

Embryoleg 2008; neu â rhiant drwy rinwedd adran 43 o'r Ddeddf honno ac yn berson y mae adran 1(3) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Teulu 1989 yn gymwys, bydd gan fam y plentyn a'r rhiant arall gyfrifoldeb rhianta dros y plentyn. Pan nad oedd y tad a mam yn briod â'i gilydd ar adeg y geni, bydd gan y fam gyfrifoldeb rhianta dros y plentyn a bydd gan y tad gyfrifoldeb rhianta dros y plentyn os yw wedi'i gael (ac nad yw wedi rhoi'r gorau i'w gael) yn unol â darpariaethau'r Ddeddf hon.

O dan Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, bydd rhiant pob plentyn o oed ysgol gorfodol yn achosi iddo gael addysg llawn amser effeithlon sy'n addas i'w oed, gallu a dawn, ac i unrhyw anghenion addysgol arbennig allai fod ganddo, naill ai drwy fynychu ysgol yn rheolaidd neu fel arall.

Nid oes uchafswm nifer o bobl y gellir eu hystyried yn rhiant.

Mae'r meini prawf cyfrannol canlynol yn rhai o'r meini prawf a ystyriwyd o ran pwy fydd yn cael gohebiaeth gyfreithiol:

- Pwy sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am ofal y plentyn/plant?
- A yw'r tad neu'r fam yn chwarae rhan weithgar ym magwraeth y plentyn/plant?
- A oes Gorchymyn Preswyl ar waith?

Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn briodol cymryd camau yn erbyn un rhiant yn unig, lle mewn rhai achosion gallai fod yn briodol cymryd camau yn erbyn dau riant neu fwy. Ymdrinnir â phob cais yn unigol.

5. Llawlyfr Presenoldeb

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Addysg Lleol sicrhau bod ganddynt Lawlyfr Presenoldeb ar waith sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'n rhaid i'r llawlyfr fod ar gael i'r cyhoedd ar gais. Disgwylir i ysgolion geisio gwella presenoldeb disgybl cyn cyfeirio at yr EWS yn dilyn ymateb graddedig. Pan fydd ymgais ysgol i wella presenoldeb disgybl wedi bod yn aflwyddiannus, bydd yr ysgolion hynny sy'n rhan o'r EWS/SLA yn cyfeirio'r achos at yr EWS er mwyn mynd i'r afael â'r achos.

6. Hysbysiadau Cosb Sefydlog (FPN)

Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013, a ddaeth i rym ym mis Medi 2014, yn rhoi pwerau newydd i awdurdodau lleol i roi hysbysiadau cosb sefydlog (FPN). Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi llunio Cod Ymddygiad ynghylch rhoi FPN. O dan y cod hwn, y Gwasanaeth Lles Addysg fydd yn gyfrifol am roi'r FPNs mewn ymateb i geisiadau gan Benaethiaid a dirprwyon enwebedig. Disgwylir y bydd FPN yn cael ei ddefnyddio i wella presenoldeb ac atal absenoldeb diangen o'r ysgol. Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn rhoi disgresiwn i'r Pennaeth i ganiatáu absenoldeb at ddibenion gwyliau.

Unwaith y bydd absenoldeb heb gael ei awdurdodi gan y Pennaeth a bod y mater wedi'i gyfeirio at yr EWS, gellir ystyried FPN o dan yr amgylchiadau canlynol:

- O leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) wedi colli oherwydd **unrhyw** absenoldeb anawdurdodedig yn y flwyddyn academiaidd (gallai hyn gynnwys gwyliau a gymerwyd o fewn y tymor ysgol sy'n fwy na 5 diwrnod gwaith. Nid oes rhaid iddynt fod yn absenoldeb olynol);
- Cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn gyson h.y. ar ôl i'r gofrestr gau yn y tymor presennol. "Cyson" yw cyrraedd yn hwyr i o leiaf o leiaf 10 sesiwn;
Pan fydd rhiant/gofalwr wedi methu ag ymgysylltu â'r ysgol a/neu fod yr EWS yn ceisio gwella presenoldeb ond nad yw cosb llys wedi'i ddechrau;
- Pan fydd disgybl yn dod at sylw'r heddlu yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol am fod yn absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol.

Bydd yr EWS yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod hysbysiadau yn cael eu defnyddio'n gyson ac nad yw'n effeithio'n andwyol ar berthnasau rhwng ysgolion a theuluoedd. Ni ddylai fod unrhyw wrthdaro gydag unrhyw ymyrraeth sydd ar waith, gan gynnwys pan fydd mesurau mewn cysylltiad â throedd lle mae trafodion o dan adran 444(1) neu adran 444(1a) Deddf Addysg 1996 yn cael eu hystyried neu wedi cychwyn.

Bydd y Pennaeth a'r EWS yn ystyried y canlynol wrth drafod p'un a ellir rhoi FPN:-

- Lefel yr absenoldeb;
- Ystyriaeth i ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Hanes y materion presenoldeb a'r camau a gymerwyd;

- Canllawiau Llywodraeth Cymru;
- Effeithiolrwydd tebygol Hysbysiad Cosb Sefydlog fel offeryn i sicrhau cydymffurfiaeth;
- Lefel ymgysylltiad/cydweithrediad rhieni;
- Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig

Rhoddir FPN pan fan fydd amgylchiadau o absenoldebau anawdurdodedig a phan deimlir bod FPN yn briodol, gan ystyried ffeithiau'r achos. Dylid nodi na ellir rhoi mwy nag un FPN yn ystod blwyddyn academiaidd. Pan fydd mwy nag un plentyn â phresenoldeb gwael o fewn yr un teulu, gellir rhoi FPN ar gyfer pob plentyn yn y teulu hwnnw gan arwain at rieni yn cael mwy nag un hysbysiad o fewn yr un flwyddyn academiaidd. Nid oes cyfyngiadau ar nifer y troeon y gall rhiant gael rhybudd ffurfiol o hysbysiad cyn cael FPN.

Bydd yr EWS yn ymateb i bob cais gan y Pennaeth i roi hysbysiadau cosb o fewn 10 diwrnod i dderbyn yr holl wybodaeth berthnasol. Ar ôl ystyried yr uchod i gyd, os yw'r EWS yn teimlo ei bod yn briodol bydd yn anfon rhybudd ysgrifenedig ffurfiol at rieni/gofalwyr yn rhoi gwybod iddynt y gallent gael FPN a pham. Nid yw hyn yn berthnasol mewn absenoldeb anawdurdodedig yn ymwneud â gwyliau. Yna bydd yr EWS yn dilyn y canlynol:

- Anfon rhybudd ysgrifenedig ffurfiol at y rhiant/gofalwr yn rhoi gwybod iddynt y gallent fod yn cael hysbysiad cosb sefydlog a pham;
- Pennu cyfnod o 15 diwrnod lle na ddylai'r disgybl fod ag unrhyw absenoldeb anawdurdodedig o'r ysgol;
- Os, ar ddiwedd y 15 diwrnod, nad oes unrhyw welliant, bydd hysbysiad cosb yn cael ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf;
- Os oes gwelliant mewn presenoldeb ac nad oes unrhyw absenoldeb anawdurdodedig, ni fydd yr hysbysiad cosb yn cael ei roi;
Nodwch pan fydd yr ysgol yn gwneud cais bod FPN yn cael ei roi am absenoldeb gwyliau anawdurdodedig, ni fydd y rhybudd ffurfiol a'r cyfnod gwella 15 diwrnod yn gymwys;
Nid oes terfyn ar nifer y weithiau y gellir rhoi hysbysiad rhybudd;
- Y Pennaeth sydd â disgrisiwn o ran a fydd ALI yn rhoi FPN i un neu ddau riant/gofalwr.

Cost Hysbysiadau Cosb Sefydlog yw £120 (wedi'i leihau i £60 os telir o fewn 28 diwrnod) a chânt eu rhoi i bob rhiant/gofalwr â chyfrifoldeb rhianta. Os nad yw'r gosb sefydlog wedi'i dalu ar ôl 42 diwrnod, bydd y rhiant yn cael ei erlyn o dan Adran 444(1) Deddf Addysg 1996.

Gellir ond tynnu hysbysiad cosb yn ôl pan fydd prawf o'r canlynol:-

- Cafodd yr hysbysiad ei roi i'r person anghywir neu i'r cyfeiriad anghywir;

- Nid oedd yr hysbysiad yn cydymffurfio â'r cod ymddygiad;
- Mae tystiolaeth yn dangos na ddylid fod wedi rhoi'r hysbysiad e.e. darparwyd tystiolaeth feddygol; neu
 - Bydd hysbysiad o dynnu'n ôl yn cael ei roi i'r rhiant/gofalwr.

GWASANAETH LLES ADDYSG MERTHYR TUDFUL

7. Troseddau

Ymdrinnir â phob achos o beidio â mynychu'r ysgol yn unigol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cadarnhau, cyn y gellir ystyried erlyn rhieni/gwarcheidwaid, lle mae SLA ar waith yn yr ysgol, mae'n rhaid i'r EIO wneud pob ymdrech i ymgysylltu a gweithio gyda'r plant a'r teulu sy'n cynnwys cynnig cymorth ychwanegol os bydd angen. Lle nad oes SLA ar waith, cyfrifoldeb yr ysgol yw hwnnw. Os, ar ôl gweithio gyda'r teulu, nad yw'r presenoldeb yn gwella'n ddigonol, bydd yr EWS yn penderfynu p'un a, ac at ar ba bwynt, y dylid cyfarwyddo'r gwasanaethau cyfreithiol i ystyried erlyn ar gyfer y drosedd o dan adran 444(1) ac adran 4441(a) o Ddeddf Addysg 1996.

Yn y pen draw, Pennaeth yr ysgol sy'n penderfynu cyfeirio'r mater at y gyfraith er mwyn erlyn, ond bydd yr Uwch Swyddog Lles Addysg (SEWO) yn goruchwyllo hyn. Yr achosion hyn fel arfer yw pan fydd rhieni yn gwrthod ymgysylltu neu gydweithredu â'r ysgol neu'r EWS, neu pan deimlir y gallai rhieni/gofalwyr fod wedi gwneud mwy i wella presenoldeb eu plentyn.

Nid yw penderfyniadau i gychwyn trafodion cyfreithiol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cael eu gwneud ar chwarae bach. Ystyrir p'un a yw'n briodol ac o fudd y cyhoedd i fwrw ymlaen. Mae gan bob plentyn hawl i fod mewn addysg ac mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i wneud yn siŵr eu bod yn cael addysg.

8. Y Broses Erllyn

a. Hysbysiadau Rhybudd

Dylai canlyniadau peidio â mynychu'r ysgol gael eu gwneud yn glir i rieni/gofalwyr. Rhoddir dau rybudd i rieni sy'n rhoi cyfle i'r rhieni/gofalwyr wella'r sefyllfa. Y disgwyliad yw y bydd y presenoldeb yn gwella. Gellir gwahodd y rhiant/rhieni i gyfarfod ffurfiol er mwyn trafod y rhesymau am beidio â mynychu'r ysgol.

Ar ôl yr ail rybudd, os nad yw'r sefyllfa'n gwella, caiff y mater ei gyfeirio at adran gyfreithiol yr Awdurdod Lleol. Bydd cyfreithwyr yr awdurdod lleol yn cynghori'r adran addysg a yw o fudd y cyhoedd i erlyn a byddant yn mynd drwy'r dystiolaeth a gyflwynwyd o'r adran addysg. Bydd cyfreithwyr yr awdurdod lleol yn gweithredu ar ran yr Awdurdod ac yn cyflwyno'r achos yn y Llys Ynadon Lleol.

b. Dogfennaeth

Mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu tystiolaeth dros erlyn. Bydd naill ai'r ysgol neu'r EWS (yn dibynnu a yw'r ysgol yn rhan o'r SLA) yn paratoi datganiad tyst yn amlinellu ymglymiad y disgybl a'r rhiant/rhieni. Bydd angen cofnodi hyn yn y person cyntaf a'u gwirio gan y SEWO. Dylai datganiad tyst gynnwys enw'r disgybl, dyddiad geni, enw'r rhiant, cyfnod y gŵyn a'r ysgol y mae'r plentyn wedi cofrestru i fynychu. Dylai'r datganiad tyst ddangos y dystysgrif cofrestru ac unrhyw arddangosiadau perthnasol eraill gan gynnwys llythyrau rhybudd.

Pan gaiff y mater ei gyfeirio at yr adran gyfreithiol, dylid rhoi sylw i gollfarnau blaenorol, os yn briodol. Bydd cyfreithwyr yr awdurdod lleol yn asesu'r dystiolaeth ac yn cynghori a yw'r mater yn briodol ar gyfer erlyn. Os yw'r adran gyfreithiol yn cynghori bod y mater yn addas ar gyfer erlyn byddant yn bwrw ymlaen i ddrafftio gŵys a dogfennau cysylltiedig ac yn rhoi'r ddogfennaeth i'r rhieni.

Cyflwynir yr achos yn y Llys Ynadon gan gyfreithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Os bydd y mater yn arwain at dreial neu nodweddion cymhleth eraill, gallai fod angen i'r unigolyn a ysgrifennodd y datganiad fynychu'r llys. Bydd yr adran gyfreithiol yn cynghori'r SEWO os bydd angen iddo neu'r EIO fynd i'r llys.

Gallai fod angen cyfweld rhieni o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 er mwyn canfod gan rieni y rhesymau dros beidio â mynychu. Yna gellir defnyddio'r dystiolaeth yn y cyfweiliad ar gyfer y llys os bydd angen.

9. Dewisiadau Eraill yn Lle Erlyn

Mewn rhai achosion, gall dewisiadau eraill yn lle erlyn fod yn fwy llwyddiannus pan gânt eu defnyddio fel offeryn ymyrraeth cynnar. Mae'n bwysig mynd i'r afael â phresenoldeb gwael mewn ysgol cyn gynted â phosibl ac osgoi bod presenoldeb gwael yn dod yn waeth a'r rhagolwg o gymryd camau pellach drwy ddechrau achosion llys.

a. Gorchymyn Goruchwylio Addysg

Gall awdurdod lleol ystyried gwneud cais am Orchymyn Goruchwylio Addysg (ESO) cyn erlyn rhiant (Deddf Plant 1989, Adran 36). Gall awdurdod lleol wneud cais am ESO drwy'r Llys Teuluoedd yn lle neu yn ogystal ag erlyn y rhiant. Mae ESO wedi'i gynllunio i helpu teuluoedd sy'n ceisio rhianta a sicrhau bod eu plentyn yn cael eu haddysg ond pan fydd anawsterau, lle, gyda chymorth yr ALI, bydd yn gwella'r sefyllfa. Ni ellir gwneud ESO mewn cysylltiad â phlentyn sydd yng ngofal yr awdurdod lleol.

b. Gorchymynion Mynychu Ysgol

Os yw'n ymddangos i awdurdod addysg lleol nad yw plentyn o oed ysgol gorfodol yn eu hardal yn cael addysg addas, naill ai drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall, o dan adran 437 Deddf Addysg 1996 gall yr awdurdod addysg lleol roi hysbysiad ysgrifenedig i rieni yn gofyn iddynt eu bodloni o fewn y cyfnod a fanylir yn yr hysbysiad bod eu plentyn yn cael addysg o'r fath. Ni fydd y cyfnod hwnnw yn llai na 15 diwrnod yn dechrau gyda'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad. Os yw rhiant sydd wedi cael hysbysiad yn methu â bodloni'r awdurdod addysg lleol o fewn y cyfnod a

fanylir yn yr hysbysiad bod y plentyn yn cael addysg addas, ac ym marn yr awdurdod disgwylir y dylai'r plentyn fynychu ysgol, bydd yr awdurdod yn rhoi gorchymyn presenoldeb ysgol (SAO) i rieni.

Bydd SAO (yn amodol ar ddiwygiad a wnaed gan yr awdurdod addysg lleol) yn parhau i orfodi gan fod y plentyn o oed ysgol gorfodol, oni bai y caiff ei ddirymu gan yr awdurdod, neu gyfeiriad a wnaed mewn cysylltiad ag ef o dan adran 443(2) neu 447(5).

c. Contractau Rhianta a Gorchmynion Rhianta

Cyflwynodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 bwerau pellach i awdurdodau lleol i helpu ymddygiad plant yn yr ysgol. Mae Contractau Rhianta yn contract gwirfoddol rhwng yr ysgol/EWS a rhiant plentyn. Eu diben yw helpu rhieni i gymryd cyfrifoldeb dros ymddygiad y plentyn drwy bennu gofynion penodol a chymorth sydd wedi'u cytuno gan bawb dan sylw.

Os na chytunir ar y contract neu os nad yw'r rhieni yn ei ddilyn, gall yr EWS mewn ymgynghoriad â'r ysgol benderfynu gwneud cais am Orchymyn Rhianta. Bydd Gorchymyn Rhianta yn cael ei ystyried hefyd pan fydd person yn cael ei erlyn am drosedd o dan adran 443 (methiant i gydymffurfio â gorchymyn presenoldeb ysgol) neu adran 444 (methiant i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol ar gyfer disgybl cofrestredig) o Deddf Addysg 1996. Bydd y gorchymyn hwn yn gofyn i'r rhiant/rhieni gydymffurfio am gyfnod nad yw'n fwy na 12 mis gyda gofynion a bennir yn y gorchymyn, ac i fynychu am yr un cyfnod o ddim mwy na thri mis, fel cwnsela neu raglen canllawiau fel y pennir yng nghyfarwydd y swyddog cyfrifol. Bydd y gorchymyn hefyd yn manylu'r cyfeiriadau a fydd yn helpu i wella ymddygiad. Os bydd rhiant yn methu â chydymffurfio â Gorchymyn Rhianta, gallai fod yn sail ar gyfer erlyniad a gallai rhiant fod yn atebol am ddirwy o hyd at £1,000. Gellid ystyried Contractau Rhianta a Gorchmynion Rhianta ym mhob achos pan fydd disgybl wedi cael ei wahardd ddwywaith neu fwy.

10. Fframwaith deddfwriaeth

Deddf Addysg 1996
Deddf Plant 1989
Rheoliadau Addysg (Hysbysiad Cosb) 2013
Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003

Deddf Addysg 1996

- Adran 7- Dyletswydd ar rieni

Mae gan rieni/gwarcheidwaid gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod eu plant yn cael addysg llawn amser effeithlon sy'n addas i'w hoed, gallu a dawn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod gan y plentyn. Gellir gwneud hyn drwy fynychu ysgol yn rheolaidd neu ryw beth arall.

- Adran 8 – Oed ysgol gorfodol

Oed ysgol gorfodol yw rhwng 5 oed (yn dechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn bump oed) a dyddiad gadael swyddogol yr ysgol yw'r dydd Gwener olaf ym mis Mehefin.

- Adran 444(1)

Erlyn pan fydd plentyn o oed ysgol gorfodol sydd yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol yn methu â mynychu'n rheolaidd a/neu'n hwyr yn gyson i'r ysgol. Y ddirwy uchaf yw £1000.

- Adran 444(1a)

Trosedd waethygedig yw hon lle mae rhiant plentyn o oed ysgol gorfodol yn gwybod bod eu plentyn wedi methu â mynychu heb reswm cyfiawn wedi methu ag chosi iddynt fynychu. Y ddirwy uchaf ar hyn o bryd yw £2,000 a/neu garchar am hyd at dri mis.

- Adran 444 (ZA)

Mae hyn yn ymestyn yr amgylchiadau lle gellir erlyn rhiant sy'n cynnwys 'methiant i fynychu darpariaeth arall a wnaed ar gyfer y disgybl' (cafodd hyn ei roi yn adran 116 o Ddeddf Addysg 2005).

- Adran 437- 443

Rhoddir y gorchmynion hyn gan yr awdurdod lleol i gyfarwyddo rhieni i gofrestru eu plant mewn ysgol a enwir. Mae methiant i gydymffurfio â SAO yn drosedd oni bai bod rhiant yn gallu dangos bod y plentyn yn cael addysg addas mewn man arall heblaw ysgol. Y ddirwy uchaf yw £1000.

Deddf Plant 1989

- Adran 36

Gorchmynion Goruchwylio Addysg (ESO) yw gorchymyn a roddir gan y Llys Trafodion Teulu sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r awdurdod lleol weithio'n agosach gyda phlant a theuluoedd i alluogi'r plentyn i gael budd o'r holl gyfleoedd addysg sydd ar gael iddyn nhw. Mae Adran 444/443 o Ddeddf Addysg 1996 yn caniatáu i roi ystyriaeth o ran a fyddai'n briodol gwneud cais am ESO. Caiff ESOs eu rhoi fel arfer am flwyddyn ond gallant fod ar waith am hyd at 3 blynedd. Mae ESO yn gofyn am ymgysylltiad a chydweithrediad rhieni a disgybl ac mae gwaith ymchwil yn dangos eu bod yn fwy llwyddiannus gyda disgyblion o oed iau.

Deddf Plant 2004

- Adran16

Mae'n rhoi pwerau i'r heddlu ddychwelyd disgyblion sy'n triwanta o'r ysgol neu le a benodir gan yr awdurdod lleol.

Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013

Mae'n rhoi pwerau i awdurdodau lleol roi hysbysiadau cosb sefydlog (FPN) i rieni/gofalwyr.

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003

- Adran 18

Mae'n caniatáu am gontractau rhianta pan fydd contract gwirfoddol rhwng yr ysgol/EWS a rhiant y disgybl.

Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010

Rhoi disgresiwn i'r Pennaeth ganiatáu absenoldeb at ddibenion gwyliau.

Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984

Caniatáu i'r awdurdod lleol gyfweld rhieni ynghylch peidio â mynychu'r ysgol.

DRAFT